# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

## Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

# Mae Lwfans Byw i'r Anabl yn dod i ben...

## Mae Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) yn dod i ben ar gyfer rhan fwyaf o bobl.

Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ysgrifennu at bawb a oedd yn 16 oed i 64 oed ar 8 Ebrill 2013 (y dyddiad y cafodd PIP ei gyflwyno) i ddweud wrthynt fod eu DLA yn dod i ben. Cadwch lygad allan am lythyr oddi wrthym. Os cawsoch eich geni cyn 8 Ebrill 1948 byddwch yn parhau i gael DLA.

Bydd y llythyr hefyd yn dweud wrthych am Daliad Annibyniaeth Personol (PIP). Mae hwn yn fudd-dal efallai y byddwch yn gallu ei hawlio i helpu gyda chostau ychwanegol, os oes gennych gyflwr iechyd hirdymor neu anabledd.

## Nid oes angen i chi wneud dim nes i chi glywed oddi wrthym.

**Byddwn yn:** **Anfon llythyr atoch** – Cewch lythyr gennym yn dweud wrthych fod eich DLA yn dod i ben. Bydd y llythyr hwn yn rhoi gwybodaeth i'ch helpu i benderfynu os ydych am wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol (PIP).

**Bydd angen i chi:** **Dywedwch wrthym os ydych am wneud cais am PIP** – Pan fyddwch yn cael eich llythyr, bydd angen i chi i roi gwybod i ni o fewn pedair wythnos os ydych am wneud cais am PIP. Yn y cyfamser, cewch wybod mwy am PIP yn **www.gov.uk/pip**

**Bydd angen i chi:** **Gwneud cais am PIP** – Os byddwch yn gwneud cais am PIP, bydd angen i chi ddarparu gwybodaeth am sut mae eich cyflwr iechyd neu anabledd yn effeithio arnoch. Byddwn yn gofyn i weithiwr iechyd proffesiynol edrych ar sut y mae eich anabledd neu gyflwr iechyd yn effeithio ar eich bywyd bob dydd. Gwnawn hwn i sicrhau eich bod yn cael y lefel gywir o gymorth.

**Byddwn yn:** **Rhoi gwybod i chi os byddwch yn cael PIP a faint a gewch** – Byddwn yn gwneud penderfyniad os byddwch yn cael PIP, yn seiliedig ar eich asesiad ac unrhyw dystiolaeth a rowch i ni. Os ydych yn cael PIP, gallech gael mwy na, yr un fath â neu'n llai na'ch DLA.

## Beth i'w wneud nesaf

Dywedwch wrthym os yw unrhyw rai o'ch manylion cyswllt wedi newid. Os nad oes gennym eich cyfeiriad presennol, gallech golli allan ar eich llythyr.

Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth arall hyd nes y byddwn yn ysgrifennu atoch, oni bai fod newid yn y ffordd y mae eich salwch neu anabledd yn effeithio arnoch. Os bydd rhywbeth yn newid, ewch i www.gov.uk/disability-benefits-helpline i gael gwybod sut i ddweud wrthym.

### Cael mwy o wybodaeth

Un peth y gallech ei wneud yw dechrau cael gwybod mwy am PIP. Os gwnewch hyn gallwch roi gwybod i ni os ydych am wneud cais ai peidio cyn gynted ag y bydd ein llythyr yn cyrraedd. Efallai y byddwch am siarad gyda'ch gofalwr, eich teulu neu'ch ffrindiau i'ch helpu i benderfynu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.gov.uk/pip

Gallech hefyd gysylltu â sefydliad cymorth lleol a all roi cymorth a chefnogaeth annibynnol. Gallwch ddod o hyd i'w manylion ar-lein, eich llyfrgell lleol neu gyfeiriadur ffôn.

Adran Gwaith a Phensiynau

Cefnogi eich annibyniaeth